
# Moana

## Gweithgaredd i'r dychymyg



Mae stori Moana wedi'i seilio yn Polynesia. Mae hanes ynysoedd Polynesia yn ddiddorol iawn.

Un o ynysoedd Polynesia yw Seland Newydd.

Māori oedd y bobl gyntaf i fyw yn Seland Newydd. Nhw yw pobl frodorol y wlad.

Mae cymaint o hanes a thraddodiadau gan y Māori.

Beth am fynd ati i ymchwilio i hanes y Māori.

Beth yw ystyr y gair Māori?

Pryd gyrhaeddon nhw ynys Seland Newydd?

Sut gyrhaeddon nhw?

Beth oedden nhw'n bwyta?

Beth oedd y Māori yn dda am wneud?

Beth ddigwyddodd yn y wlad yn y flwyddyn 1820?



Yn stori Moana mae hynafiaid Moana yn hwylio mewn canŵs mawr wedi'u cerfio'n hardd.

Tynna lun o ganŵ hardd. Dewisa batrymau, lluniau a lliwiau addas.

Ydy'r canŵ ar y dŵr neu ar y lan? Ydy hi'n nos neu'n olau dydd? Oes pobl ar y canŵ?

